# Cofrestrfa Tir EF

## Rhestr o ddogfennau

# DL

- **Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau.**
- Llenwch a chyflwynwch y ffurflen hon yn ddyblyg.
- Os yw'r cais yn gais am gofrestriad cyntaf ac rydych yn darparu'r ddogfen wreiddiol a chopi ardystiedig o ddatganiad statudol, tystysgrif treth dir y dreth stamp neu dystysgrif treth trafodiadau tir, prydles sy'n bodoli, arwystl sy'n bodoli neu'r ddogfen deitl ddiweddaraf (er enghraifft unrhyw drawsgludiad i'r ceisydd) byddwn yn dychwelyd y ddogfen wreiddiol; os na fydd copi ardystiedig yn cael ei ddarparu, gallwn gadw'r ddogfen wreiddiol a'i dinistrio.
- Os nad yw'r cais yn gais am gofrestriad cyntaf, dim ond copïau ardystiedig o weithredoedd neu ddogfennau yr ydych yn eu hanfon atom gyda ffurflenni Cofrestrfa Tir EF sydd eu hangen arnom. Unwaith y byddwn wedi gwneud copi o'r dogfennau a anfonir atom, byddwn yn eu dinistrio. Mae hyn yn wir am y gwreiddiol a chopïau ardystiedig.
- I gael gwybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

1 Cyfeiriad yr eiddo gan gynnwys cod post (os oes):

2 Dogfennau a gyflwynwyd gyda'r ffurflen hon

- Mae'r golofn gyntaf ar gyfer y Gofrestrfa Tir yn unig. Os yw'r Gofrestrfa Tir yn rhoi seren '*' yn y golofn hon, mae'n dangos ein bod wedi cadw'r ddogfen honno.
- Rhifwch y dogfennau yn olynol; dylid rhifo a rhestru copïau fel dogfennau ar wahân hefyd.
- Nid oes rhaid rhestru'r enwau ar chwiliadau pridiannau tir. Rhowch rif y chwiliad yn unig.

| Ar gyfer y Gofrestrfa Tir yn unig | Rhif yr eitem | Dyddiad | Math o ddogfen | Partïon |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

| Ar gyfer y Gofrestrfa Tir yn unig | Rhif yr eitem | Dyddiad | Math o ddogfen | Partïon |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

RHYBUDD
Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Os nad ydych yn llenwi'r ffurflen hon gyda'r gofal priodol gall diogelwch o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gael ei golli os yw camgymeriad yn cael ei wneud yn y gofrestr o ganlyniad i hyn.

O dan adran 66 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 mae'r rhan fwyaf o ddogfennau (gan gynnwys y ffurflen hon) a gedwir gan y cofrestrydd sy'n ymwneud â chais a gyflwynir i'r cofrestrydd neu y cyfeirir ato yn y gofrestr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio a'u copïo. Os ydych yn credu bod dogfen yn cynnwys gwybodaeth niweidiol, gallwch wneud cais i'r rhan honno o'r ddogfen gael ei heithrio trwy ddefnyddio Ffurflen EX1, o dan reol 136 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 08/18